

**Carwyn Jones AC/AM**

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad  
Minister for Environment, Planning and Countryside**



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref:

Ein cyf/Our ref: A-PAA-56-06-049

Aelodau Cabinet Llywodraeth Leol â  
chyfrifoldeb dros Gynllunio  
Cadeiryddion Pwyllgorau Cynllunio  
Prif Weithredwyr  
Prif Swyddogion Cyllid Cynghorau Sir a  
Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru  
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol  
Cymru

23 Awst 2006

Annwyl Gyfaill

### **Llythyr egluro CL-06-06**

#### **Gweithrediad Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Model) (Cymru) 2001 o ran cynllunio defnydd tir.**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i bryderon parhaus y mae rhai Cynghorwyr wedi'u mynegi am gymhwyso'r Cod Ymddygiad Model o ran eu cyfrifoldebau cynllunio.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) i ddarparu Rhaglen Frifio i aelodau etholedig. Bwriad hyn yw darparu sgiliau i alluogi Aelodau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Mae gwerthusiad o'r rhaglen Frifio wedi amlygu nifer o faterion na ddeliwyd â hwy hyd yn hyn. Er y nodir rhai canlyniadau cadarnhaol, fel penderfyniadau mwy effeithiol mewn pwyllgorau cynllunio ac Aelodau'n datgan eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am wneud penderfyniadau, rwy'n ymwybodol o ansicrwydd parhaus ymysg Aelodau, yn enwedig y rheiny sydd hefyd yn Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned, ynghylch sut i gymhwyso'r Cod. Mae rhai Aelodau wedi mynegi'r safbwynt y cawsant eu cyfyngu'n ormodol wrth wneud penderfyniadau a bod angen mwy o gyfarwyddyd. Rydym yn gweithio gyda CLILC i Frifio Aelodau ymhellach ac rwyf wedi gofyn i hyn gynnwys materion sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymddygiad.

Yr haf diwethaf, ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad ar waith y Grŵp Adolygu ar weithredu'r Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys Gorchymyn drafft diwygiedig "Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion a Chod Ymddygiad Model) (Cymru) 2005", a fyddai'n cymryd lle'r Cod Ymddygiad Model presennol. Cwblhawyd yr ymgynghoriad ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi, gyda golwg ar gyflwyno Gorchymyn diwygiedig gerbron y Cynulliad maes o law.

Nid yw'n bosibl rhoi cyfarwyddyd am bob sefyllfa y gallai Aelod ei hwynebu wrth ymgymryd â'i gyfrifoldebau cynllunio. Er mwyn osgoi'r perygl o wrthwynebiad cyfreithiol yn erbyn penderfyniadau cynllunio, rhaid i Aelodau osgoi amhriodoldeb, unrhyw reswm dros amheuaeth ac unrhyw

ymddygiad amhriodol ymddangosol. Gallant gynnwys eu hunain mewn trafodaethau gyda datblygwyr, eu hetholwyr ac eraill am faterion cynllunio fel cynrychiolwyr ward, neu fel aelodau pwyllgorau gwneud penderfyniadau. Mewn amgylchiadau lle mae gan Aelod unrhyw amheuaeth am gymhwyso'r Cod i sefyllfa benodol, dylent ymgynghori â Swyddog Monitro eu Hawdurdod. O dan y Cod, rhaid i Aelodau arfer cyfrifoldeb personol wrth benderfynu a oes ganddynt "fuddiant personol" y dylent ei ddatgelu. Yn amodol ar natur y buddiant, gallai fod modd i Aelod siarad am fater ond peidio â pleidleisio arno, neu gallai fod gofyn iddynt dynnu'n ôl o'i ystyried yn llwyr.

Ar fater cynrychiolaeth ddeuol Aelodau, nid yw'r Cod o reidrwydd yn atal Aelod rhag ystyried yr un mater ar fwy nag un haen o awdurdod, gan gynnwys siarad a phleidleisio ar y ddwy haen. Gan ddefnyddio'r enghraifft o gais cynllunio, gallai Aelod ystyried cais ar y ddwy haen o dan ddarpariaethau'r Cod, er y byddai'n synhwyrol i'r Aelod ei gwneud yn glir yn y Cyngor Cymuned y byddai ef/hi yn ystyried y mater o'r newydd ar lefel Sirol, gan ystyried yr holl wybodaeth berthnasol. Ar lefel Sirol, dylai'r Aelod ei gwneud yn glir nad yw'n rhwymedig wrth sabwyntiau'r Cyngor Cymuned. Yr eithriad i hyn fyddai lle mae'r Sir yn ystyried cais gan y Cyngor Cymuned ei hun. Yn y sefyllfa honno, mae'n gwbl briodol y dylai'r aelod, ar ôl gwneud unrhyw sylwadau, dynnu'n ôl. Bydd yr egwyddor sylfaenol hon, sy'n llawer mwy perthnasol na materion cynllunio, yn gael ei hesbonio ymhellach yn y Cod diwygiedig.

Mae cyngor cyffredinol a allai fod o gymorth i Aelodau wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau cynlluniau wedi'i atodi.

Yn dilyn cyhoeddi'r Cod Llywodraeth Leol diwygiedig, cyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio'i bwerau o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000, fydd cyhoeddi unrhyw ganllawiau a allai fod yn ofynnol ar gyfer ei ddehongli. Rwy'n cael ar ddeall, wedi i destun diffiniol y cod newydd gael ei gyhoeddi, ei fod yn bwriadu ymgynghori â CLILC ynghylch i ba raddau yr ymddengys fod canllawiau dehongli yn angenrheidiol, gan gynnwys canllawiau penodol er budd Aelodau sy'n gwneud penderfyniadau cynllunio, a llunio canllawiau o'r fath ar y cyd â CLILC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

**Carwyn Jones AC**

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

**CC**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol

Un Llais Cymru

Cymdeithas y Cynghorau Lleol Mwy o Faint

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

### Dylai aelodau:

- Gynnal trafodaethau â datblygwyr cyn gwneud cais cynllunio, nid ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol;
- Strwythuro trafodaethau a chynnwys swyddogion drwy'r cyfan;
- Rhoi ymwadiadau fel rhagymadrodd i unrhyw drafodaeth; peidiwch â mynychu na chymryd rhan mewn cyfarfodd ar ôl penderfynu eisoes ar safbwynt sy'n gwrthwynebu neu sy'n datgan o blaid datblygiad; cadwch nodyn o gyfarfodydd, negeseuon a galwadau ffôn; gwnewch yn glir ar y cychwyn nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhwymedig wrth y trafodaethau;
- Atal rhag gwneud datganiadau a chymryd safbwynt ar fater cynllunio cyn ystyried yn llawn yr holl wybodaeth sydd ar gael yn y cyfarfod penderfynu perthnasol;
- Cofio eu bod yn gwneud penderfyniadau cynllunio ar ran y gymuned yn ei chyfanrwydd;
- Cyflwyno safbwyntiau'u hetholwyr, tra'n esbonio y byddant yn gwneud penderfyniadau gyda meddwl agored ac ar sail yr **holl** wybodaeth sydd ar gael;
- Cydnabod y gwahaniaeth rhwng rhoi cyngor ar weithdrefnau neu bolisiau ac ymgymryd â thrafodaethau;
- Cadw at y polisiau yn y cynllun datblygu mabwysiedig ond hefyd rhoi sylw i ystyriaethau eraill sy'n berthnasol i gynllunio;
- Datgelu a chofrestru'u buddiannau fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymddygiad<sup>1</sup>. Yn amodol ar natur y buddiant, gallai fod modd i Aelod siarad am fater ond peidio â pleidleisio arno, neu gallai fod gofyn iddynt dynnu'n ôl o'i ystyried yn llwyr, oni roddir goddefeb iddynt gan bwyllgor safonau yr awdurdod. Dylai aelodau geisio cyngor cynnar gan swyddog monitro yr awdurdod perthnasol os oes ganddynt unrhyw amheuaeth.
- Defnyddio cyfarfodydd i ddangos arweinyddiaeth a gweledigaeth;
- Annog canlyniadau cadarnhaol;
- Sicrhau eu bod yn deall y Cod Ymddygiad ac yn ceisio hyfforddiant gan eu Hawdurdod ar faterion uniondeb os oes anawsterau o ran cymhwyso ei god ymddygiad;
- Ceisio cyngor cynnar gan Swyddog Monitro'u hawdurdod;

---

<sup>1</sup> Mae paragraff 12 y Cod yn darparu'r canlynol:

"Rhaid i Aelodau ystyried bod ganddynt fuddiant personol mewn mater i'r graddau y mae'n berthnasol i:

(a) awdurdod perthnasol arall y maent yn aelod ohono;

(b) corff lle mae ganddynt swydd reoli gyffredinol;

(c) corff y maent wedi'u penodi neu'i enwebu fel cynrychiolydd iddo gan yr awdurdod."

Mae paragraff 16 yn darparu bod yn rhaid i aelod â buddiant mewn mater a nodir ym mharagraff 12 ddatgelu bodolaeth a natur y buddiant. Cânt siarad amdano ond ni chânt bleidleisio arno.

- Bod yn ymwybodol o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n nodi achosion lle'r aeth pethau o'i le a bod cwynion wedi'u gwneud.

### **Ni ddylai aelodau:**

- Gwrdd â datblygwyr ar eu pen eu hunain neu roi'u hunain mewn sefyllfa lle'r ymddengys eu bod yn ffafrio person, cwmni neu grŵp - gallai hyd yn oed trafodaeth breifat "gyfeillgar" gyda datblygwr achosi i eraill ddrwgdybio didueddrwydd yr Aelod;
- Derbyn rhoddion neu letygarwch;
- Disgwyl lobïo a chefnogi neu wrthwynebu cais a bod modd iddynt bleidleisio yn y pwyllgor o hyd neu aros yn yr ystafell bwyllgora yn ystod trafodaethau;
- Ceisio dylanwadu ar swyddogion neu Aelodau eraill, neu roi pwysau arnynt i gefnogi ffordd benodol o weithredu cais cynllunio, cytundeb cynllunio, camau gorfodi neu gynllun datblygu.